# Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019

**2019 dccc 1**

*Darpariaeth ar gyfer datgelu gwybodaeth*

PROSPECTIVE

**5 Datgelu ymlaen wybodaeth sydd wedi ei datgelu yn rhinwedd adran 3 neu 4**

(1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer datgelu ymlaen wybodaeth sydd wedi cael ei datgelu yn rhinwedd adran 3 neu 4.

(2) Ond mae is-adran (3) yn gymwys yn achos gwybodaeth sydd wedi ei datgelu yn unol â darpariaeth y mae'r Gweinidog priodol wedi cydsynio â hi o dan adran 4(5).

(3) Ni chaiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer datgelu ymlaen yr wybodaeth ond os yw'r Gweinidog priodol (o fewn ystyr adran 4) wedi cydsynio â'r ddarpariaeth ar gyfer datgelu ymlaen.

(4) Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth sy'n creu troseddau mewn cysylltiad â datgelu ymlaen wybodaeth sy'n ymwneud â pherson penodol.

(5) Os yw'r rheoliadau yn creu trosedd mewn perthynas â datgelu ymlaen wybodaeth, ni chaiff darpariaeth a wneir ar gyfer unrhyw gosb o garchar ar euogfarn ar dditiad bennu cyfnod o garchar sy'n hwy na dwy flynedd (pa un a yw'n dod gyda dirwy ai peidio).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 13(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019, Adran 5.